# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones




Rhifyn 35 - Haf 2016

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

# GOLYGYDDOL

Fe sylwch bod y rhifyn hwn yn un eithaf rhyngwladol - hanes gylfinir o'r Almaen ym Môn; Ieuan Bryn yn sôn am daith i adarydda a morfila oddi ar arfordir Mecsico a Twm Elias yn trafod adar, mwncwns a chrwbanod Bali bell.

Erbyn hyn daeth yn ddidrafferth iawn ymdrin ag adar tramor oherwydd ar gael bellach ar-lein mae rhestr gyflawn o enwau Cymraeg ar holl adar y byd ac, yn fwy na hynny, mae lluniau o bron iawn bob un ohonyn nhw drwy gydweithrediad â Wicipedia Cymraeg.

Ers cyhoeddi Rhestr o Adar Cymru gan Ted Breeze Jones a Peter Hope Jones yn 1973 rydym wedi camu ymlaen yn rhyfeddol.

Gellir gweld y Rhestr o Enwau Adar y Byd ar wefan Llên Natur -
www.llennatur.com
ar hyn o bryd (yn yr adran Geiriadur Enwau a Thermau) ond yn fuan iawn bydd cyswllt uniongyrchol iddi ar ein gwefan ni. Cerwch iddi i gael golwg. Bydd mwy am y rhestr a'i chefndir yn y rhifyn nesaf.

**Cynnwys:**


Ar drywydd adar a morfilod *Ieuan Bryn* .................................... 3
Pryd ar glud *Gwawr Angharad Jones* ........................................ 8
Taith Llanddona a Phenmon *Twm Elias/Kelvin Jones* ................ 9
Cocky y cocatŵ *Gareth Jones* ................................................ 13
Un wennol *Rhodri Dafydd* ...................................................... 14
Adar Y Bala... na Bali! *Twm Elias* ............................................ 18
Gweithgareddau'r Hydref a'r Gaeaf ........................................ 24


**Llun y clawr**: gweler yr hanes ar dud. 8

**Swyddogion**

**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd + Ysgrifennydd Aelodaeth**: Brian Paul
Tŷ Fry, Penrhyndeudraeth, LL48 6RT, 01766 770 500
**Cyd-ysgrifenyddion**: Huw Dafydd + Gareth T Jones (pwllheli@gmail.com)
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk

Cynigir gostyngiadau i aelodau'r Gymdeithas yn **Cotswold Outdoor, Betws y Coed**

Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud


**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

# AR DRYWYDD ADAR... A MORFILOD!


Rydw i'n lled-amau i'm hen deidiau oedd yn forwyr ac yn gapteiniaid ar rai o longau enwog Porthmadog drosglwyddo rhyw gymaint o heli i 'ngwaed innau. Drwy'r heli y dois i Gymru am y tro cyntaf pan hwyliodd fy rhieni yma o'r India lle'r oedden nhw'n genhadon ar Fryniau Casia, a does dim yn rhoi mwy o bleser i mi, ers sawl blwyddyn bellach, na chroesi'r tonnau i ynysoedd yr Alban ac ynysoedd Cymru i dreulio gwyliau.




Ond wnes i ddim sylweddoli tan yn ddiweddar bod yna dipyn o wahaniaeth rhwng bod ar fôr am ychydig oriau a mentro ar fordaith 1,200 o filltiroedd mewn cwch cymharol fychan i lawr arfordir gogledd-orllewinol Mecsico (Penrhyn Baja a Môr Cortez, yn benodol) gan fyw a chysgu ar y cwch drwy gydol y cyfnod.

Cwch 29-metr a lle arno i bump ar hugain o deithwyr oedd o. Roedd y capten a'i griw'n gymeriadau gwerinol o'r iawn ryw, a heb eu medrau morwrol hwy a'u gallu eithriadol i wybod ble a sut i ddod o hyd i greaduriaid rhyfeddol y môr, fyddwn i ddim wedi cyflawni yr un o'm hamcanion.

Gweld morfil glas – yr anifail mwyaf fu'n byw ar ein planed erioed – oedd fy nod cyntaf. Mae hwn yn tyfu hyd at 100 troedfedd ac yn pwyso cymaint â 30 o eliffantod! Mae'n fwy nag unrhyw ddeinosor a droediodd ein daear, a gall fyw hyd at 90 blwydd oed.




Mae ganddo'r gallu i gysgu a nofio ar yr un pryd, gan ddefnyddio dim ond hanner ei ymennydd pan fydd yn gwneud hynny. Bydd yn cyfathrebu â morfilod o'r un rhywogaeth drwy gyfrwng 'caneuon' cymhleth, a chred gwyddonwyr y gallan nhw glywed eu 'caneuon' ei gilydd hyd yn oed pan fyddan nhw gannoedd o filltiroedd oddi wrth ei gilydd.

Ar brynhawn tawel pan oedd y môr yn llonydd fel pwll y gwelais i'r morfil glas cyntaf, yng nghyffiniau Ynysoedd Todos. Y capten welodd chwistrelliad ei anadl, a gwyddai mai morfil glas ydoedd am fod y chwistrelliad yn codi fel colofn 30 troedfedd ar ongl sgwâr i wyneb y dŵr.

Dyma ddynesu'n araf a gweld mam a'i llo'n brigo i'r wyneb. Fe ddaeth y ddau i'r wyneb fwy nag unwaith, gan ennyn ynof ymateb cymysg o ryfeddod pur ac arswyd. Byddwn wedi rhoi'r byd am gael cip arnyn nhw o dan yr wyneb er mwyn gweld eu maint drosof fy hun.

Bedwar diwrnod yn ddiweddarach, daethom ar draws pum morfil glas arall, a llwyddo i fynd o fewn hanner canllath iddyn nhw. Buom yn eu gwylio am dros ddwyawr, a phan fydden nhw'n anadlu allan, byddai enfys fechan yn ffurfio wrth i'r haul daro ar ddafnau dŵr eu chwistrelliad. Yn ystod y fordaith gyfan, gwelsom wyth morfil glas.

Ym morlyn eang San Ignacio, roedd yna rywogaeth wahanol. Morfilod llwyd, llawer llai oedd y rhain, ac roedden nhw'n llawn diriedi. I gael golwg agos arnyn nhw, byddem yn mynd i gychod bach, a byddai'r morfilod yn rhuthro atom i gael sylw. Byddai'r mamau a'u lloi'n dod reit at ymyl y cwch, a'r lloi'n rholio'n chwareus a chodi eu trwynau mawr o'r dŵr i gael mwythau. Bron na ddisgwyliech iddyn nhw ddechrau canu grwndi!

Deunydd ceratinaidd a elwir yn 'balîn', ac nid dannedd, sydd gan y morfilod hyn, a thrwy'r balîn yn eu gên uchaf y byddan nhw'n hidlo eu bwyd o'r môr. Golygfa drawiadol iawn yw honno pan fydd yr oedolion yn ymestyn eu pennau'n uchel uwchben y dŵr i weld beth arall sydd o gwmpas. Ar un adeg, gallem gyfrif pymtheg o forfilod yn 'ysbïo' fel hyn mewn cylch o'n hamgylch. Byddai rhai eraill ohonyn nhw'n llamu allan o'r dŵr yn gyfan gwbl.

Rhywogaeth arall a roddodd gryn bleser i ni oedd y morfil cefngrwm. Yn fy nyddiadur ar gyfer bore'r 29ain o Fawrth, a ninnau bellach wedi cyrraedd Môr Cortez, cofnodais y manylion canlynol. "*7.00: dod ar draws dau forfil cefngrwm (mam a'i llo), a'r fam yn plymio i'r dwfn a dangos ei chynffon ar dri achlysur gwahanol. 9.00: dau forfil cefngrwm arall yn eithriadol o agos at y cwch, a'r ddau'n codi eu cynffonnau'n osgeiddig i'r awyr cyn plymio. 9.45: dau forfil cefngrwm gwahanol eto! 11.15: pedwar morfil cefngrwm yn plymio a dangos eu cynffonnau i ni...*" Gwelsom bedwar ar ddeg o'r morfilod hyn cyn diwedd y dydd.



Ond mwy hoffus i mi na hyd yn oed y morfilod mwythlyd oedd y dolffiniaid a wibiai atom yn fwrlwm o fwâu er mwyn cael nofio'n gyfochrog â ni. Bod ymysg dolffiniaid fel hyn oedd fy ail obaith.

Ar y 24ain o Fawrth, daeth haid o ddolffiniaid cyffredin o hyd i ni a nofio gyda ni am dri chwarter awr. Y diwrnod canlynol, cawsom ein



cyfareddu gan tua 200 o ddolffiniaid hirbig yn hollti'r tonnau yn ddeuawdau a phedwarawdau a chwechawdau wrth gyrchu at ochr a blaen ein cwch. Dridiau wedyn, ymddangosodd dros fil o ddolffiniaid byrbig o nunlle, a rhoi sioe anferthol i ni. Pe cawn i ddewis bod yn unrhyw greadur o fyd natur, bod yn un o'r dolffiniaid afieithus hynny fyddai fy newis heb unrhyw amheuaeth.

Wrth forio ymlaen, gwelsom ragor o greaduriaid môr diddorol dros ben (crwbanod môr, pysgod haul, pysgod hedegog, morgathod trydan, pysgod gitâr) ac erbyn y 30ain o Fawrth, roedden ni wedi cyrraedd Bae La Paz. Roedd y bae fel llyn llefrith, ac amryw o ddolffiniaid trwyn potel yn hel eu tamaid yn araf a gosgeiddig yng ngwres mwyn y bore.

Dyma fynd i lawr yr ysgol i'r cychod bach a dechrau chwilio am forgi morfilaidd, pysgodyn mwyaf ein moroedd ni. Gan mai morgi balîn ydyw, does ganddo ddim dannedd ond go brin yr anghofiaf ef yn nofio tuag ataf a'i geg enfawr yn agored led y pen. Rai munudau wedyn, nofiodd yn gyfochrog â'r cwch a gallwn weld drwy'r dŵr clir ei groen smotiog pert a'i wir faint, sef tua 30



troedfedd. Aeth rhai i nofio gydag o. Efallai fod rhywfaint o heli yn fy ngwaed ond doedd dim digon o ddur ynof i ymuno â nhw!

Fy nhrydydd amcan oedd gweld cynifer â phosib o adar môr ac adar ynysoedd bychain Mecsico. Yr ynys gyntaf oedd Ynys Orllewinol San Benito, a chyn pen pum munud i mi osod troed arni, dyma walch y pysgod yn hedfan yn union uwch fy mhen, a physgodyn yn ei grafangau. Roeddwn i ar lannau Afon Glaslyn eto. Ysgytwol yw cyd-ddigwyddiadau o'r fath.

Aethom heibio'n dawel i bedwar o nythod gweilch y pysgod; roedd dau gyw yn un ohonyn nhw. Ar yr ynys hon, bydd y gweilch yn nythu ar y ddaear gan nad oes coed iddyn nhw adeiladu nythod. Dros y dyddiau dilynol, byddwn yn gweld amryw o weilch yn codi pysgod o'r môr yn hytrach nag o ddŵr afon, ac ar y tir mawr ar ddiwedd y daith, gwelais nhw'n nythu mewn mannau cwbl agored lle'r oedd ugeiniau o bobl yn mynd a dod wrth eu nythod heb i'r adar gynhyrfu dim.

Ar fore Sul y Pasg, cawsom ein tywys mewn cwch bychan i ganol mangrof oedd yn berwi o deloriaid yn canu fel un côr yn yr heulwen. Yn hongian fel ffrwythau mawr ecsotig ar un llwyn, roedd yna chwe chrëyr eirwyn, un crëyr mawr glas, un crëyr coch, tri chrëyr bach glas ac un crëyr trilliw. Gwelsom hefyd bedwar ibis gwyn, pum gylfinir America, un fôr-wennol y Caspia, un crëyr nos cribfelyn, dau fwltur pengoch, a haid o 33 o hwyaid brongoch hardd fel y rhai a welwn yn ein haberoedd ac ar ein glannau yng Nghymru. A difyr iawn, iawn oedd gwylio'r crëyr coch yn hudo a dal pysgod drwy ddawnsio'n sgilgar ar wely tywodlyd y sianel.

Ar y cefnfor, roedd yna adar go wahanol. Un o'r rhain oedd albatros troetddu. Mae hwn rhwng dwy a thair troedfedd o hyd, a'r adenydd yn saith troedfedd pan fyddan nhw ar led. Dim ond tair rhywogaeth o albatrosiaid a geir yn Hemisffer y Gogledd (albatros Laysan ac albatros Ynys Izu yw'r ddau fath arall). Brownddu drosto yw'r albatros troetddu, ac eithrio'r patshys gwynion sydd wrth fôn ei big ac o dan ei lygaid. Bydd yn hel ei damaid – pysgod, wyau pysgod a môr-lewys – wrth nofio, ac mae'n debyg bod yr oedolyn hynaf a gofnodwyd yn 42 mlwydd oed.



Cryfhaodd y gwynt wrth i ni symud fwyfwy tua'r de, ac roeddwn i'n arbennig o falch o ddod ar draws ugeiniau o bedrynnod drycin yn sgimio'r tonnau'n igam-ogam.



Pedrynnod drycin du a'r pedrynnod drycin bach prinnach oedd y rhain. Yng ngoleuadau ein cwch ar ôl iddi nosi, byddai'r pedrynnod drycin bach i'w gweld yn dawnsio ar wyneb y dŵr wrth chwilota am eu bwyd, a'u gweld felly, fel gwyfynod yn y tywyllwch, yw un o'r pethau a gofiaf am yn hir, hir iawn.

Peth arall a erys yn y cof yw'r tro y gwelsom aderyn claer-wyn, gweddol fawr yn hedfan o'r gorwel pell i'n cyfeiriad, ac yn y diwedd, yn glanio oddeutu canllath oddi wrthym. Arafodd y capten y cwch a mynd yn nes ato'n dawel fach, a chawsom i gyd ein gwefreiddio wrth sylweddoli mai aderyn cochbig y Trofannau ydoedd. Arhosodd yn ei unfan am fwy nag ugain munud, ac roedd ei big fflamgoch a'i gynffon luniaidd, hir yn amlwg iawn pan gododd oddi ar wyneb y dŵr a hedfan i ffwrdd. Waw! Roedd yntau hefyd yn un o'm hadar targed.



Ac roedd mwy eto yn ein disgwyl pan gyrhaeddon ni harbwr Cabo San Lucas a'r tir mawr. Aethom o'r harbwr i dref hyfryd San Jose del Cabo, ac wrth aber yr afon yno, gwelsom grëyr trilliw, tresglod penfelyn, corhwyaid asgell las, corhwyaid asgell werdd, cudyll coch America, dau hirgoes gyddfddu, bwncath cynffongoch, gwybedog sidanaidd gloyw, gwyach ylfinfraith a gwyach fach America.

Yn ogystal â'r uchod, byddaf yn siŵr o gofio hefyd harddwch y wawr a'r min nos, patrymau clir y sêr y noson y diffoddwyd holl oleuadau'r cwch, cyfaredd yr ynysoedd bychain anghyfannedd a'u cyfoeth o fywyd gwyllt, y traethau ardderchog o wag, y bywyd syml iach, ac yn fwy na dim, y gweld a'r trysori.

**Ieuan Bryn**

(lluniau: Wicipedia)

# PRYD AR GLUD




Mae John Owen Jones yn ffermio yn Tŷ Uchaf, Padog, Betws y Coed, yng Nghwm Eidda.

Bob blwyddyn ers tua 10 mlynedd mae **siglen fraith** wedi bod yn nythu a magu ei chywion yn llwyddiannus o dan fonet ei dractor. Mae'r nyth mewn lle gwastad uwchben yr *oil filters*.

Pan fydd John yn tanio neu yn cychwyn y tractor dydi'r cywion ddim yn cynhyrfu dim efo'r sŵn. Pan fydd o yn chwalu tail neu yn slingio yn y caeau bydd y ddau aderyn - sef y gŵr a'r wraig, yn ei ddilyn i bob man. Bydd John yn stopio'r tractor bob hyn a hyn i adael i'r adar gael cyfle i fwydo'r cywion. Fel arfer pan mae'r tractor yn llonydd bydd y ddau aderyn yn glanio ar fonet y tractor ac yn edrych o'u cwmpas am rai eiliadau, cyn mynd ati wedyn i fynd o dan y bonet efo llond eu pig o bryfaid genwair. Mae yna andros o sŵn gan y cywion pan maent yn cael eu bwydo. Wedyn mae'r adar yn hedfan i ffwrdd i chwilio am ychwaneg o fwyd. Mae John yn medru gwylio hyn i gyd o gaban ei dractor.



Dridiau yn ôl, roedd John am ddefnyddio y tractor, ond daeth wyneb i wyneb â'r tri cyw bach yn eistedd mewn rhes daclus ar dop bonet y tractor ac felly bu'n rhaid iddo ail-drefnu ei ddiwrnod! Ar ôl ychydig oriau aeth John yn ei ôl i chwilio am y cywion ond yr oeddent wedi hedfan i ffwrdd yn llwyddiannus.

Mae John yn teimlo ei fod yn lwcus iawn i weld y digwyddiad hwn bob blwyddyn a dwi'n siŵr fod y cywion bach yn mwynhau cael mynd am dro hefo fo a chael '*meals on wheels*' go iawn ar yr un amser.

**Gwawr Angharad Jones**
Betws y Coed

# TAITH LLANDDONA A PHENMON



Ar Ionawr 23[ain], cytunodd Gwen Richards i'n harwain ar daith i ardal oedd, â'i rhan gyntaf yn sicr, yn ddiarth iawn i'r rhai ohonom o'r ochr arall i'r Fenai. Pawb wedi clywed am wrachod enwog Llanddona ond heb gael y fraint na'r cyfle efallai i ymweld a'r lle. Wedi dringo dros y gefnen o Fiwmares dyma ddisgyn ar hyd y lôn fach droellog heibio'r Eglwys ac i'r maes parcio ger y traeth. Wel dyma le hyfryd; y llethrau coediog yn ein hamgáu fel mewn hanner bowlen y tu cefn a phenllanw Traeth Coch o'n blaenau. 'Doedd ehangder y Traeth ei hun, lle bu William Ellis Williams yn arbrofi gyda awyren gynnar yn 1911, ddim yn amlwg felly am ei fod dan ddŵr. Ond roedd hynny'n wych i ni am fod cymaint o adar yn clwydo ar y glannau i aros am y trai.

Draw a ni gan ddilyn llwybr yr arfordir tua'r gorllewin am ryw filltir ar hyd pwt o ffordd, marian y traeth, cefn y twyni, llwybr pren dros y darnau corsiog ac ar hyd pen cul y clawdd llanw concrit. Amryw o adar bach yn y coed a'r llwyni tu cefn inni – titws, adar duon, bronfreithod yn canu, llwyd y gwrych ayyb a rhyw greadur barfog yn ein plith yn ceisio cael sgwrs efo criw o heffrod: "*Mwwwww*", ond y cwbwl wnaethon nhw oedd sbïo arno fo 'fatha lloeau!



Dau grëyr bach gwyn ar y morfa a chriwiau o adar yn clwydo ar ymyl y traeth: 54 glyfinir; ryw



ddau ddwsin o biod môr, 26 o wylanod y gweunydd efo'u pennau llwyd-frith a choesau gwyrdd, ryw ddyrnaid o wylanod eraill (cefnddu fwyaf, penwaig a penddu) ryw ddeugain o chwiaid yr eithin wedi eu gwasgaru hyd y morfa, ambell i goesgoch, dwy chwadan lostfain yn codi a, Hwre!, un gŵydd ddu. Y math bol golau o'r Ynys Las oedd hon. Cyn bo hir fe gododd a hedfan i ymuno efo ryw hanner dwsin o wyddau duon eraill a chriw bychan o chwiws (chwiwellod) ryw hanner milltir i ffwrdd.

Ar y ffordd yn ôl dyma sganio'r môr. Roedd sawl criw o chwiaid duon yn bownsio ar y tonnau, sawl bili dowcar ac o leia dau drochydd gyddfgoch ymhell allan.

Draw a ni wedyn dros y top heibio Bwrdd Arthur ac i lawr at geg y Fenai. Tri o'r ceir yn parcio yn Nhrwyn y Penrhyn ychydig cyn cyrraedd Penmon. Y môr un ochr inni a llyn bychan yn y cae gyferbyn – cae gyda wal fawr o'i gwmpas, oedd yn barc ceirw i stad fawr Barron Hill ar un adeg. Lle da am ginio. Roedd y car arall, efo Huw, JP a Dewi wedi mynd ar goll ond fe ddaethon nhw o rywle wedi inni orffen ein brechdanau.





Roedd y llyn bach yn le da iawn: ryw 40 coesgoch yn clwydo ar ei ymyl a thua 150 glyfinir a nifer dda o biod môr, chwiaid eithin a gwylanod penwaig, cefnddu leiaf a penddu (un ohonynt â'i phen yn ddu) ar y tir corsiog o gwmpas. Hefyd chwiaid gylltion, cor-hwyaid, dau grëyr glas a haid o ddrudwy. Ond y sioe ora' oedd gweld 7 gŵydd ddu yn cyrraedd a glanio ar y llyn. Tybed ai rhain oedd ar y morfa ger Llanddona ynghynt, ac wedi dod drosodd yn barod i fwydo ar Draeth Lafan rwan bod y trai yn prysur wagio'r aber.

Ar ôl mynd gartref ac edrych dros y lluniau a dynnwyd, sylwyd bod un o'r gylfinirod efo modrwyau lliw ar ei choesau. Rhaid oedd anfon copi o'r llun i Kelvin Jonesw (BTO Cymru). Bydd yn ddifyr gwybod lle modrwywyd yr adar yma a lle cafodd y llall ei gweld ddiwethaf.

Ymlaen a ni am Benmon. Ond am fod raid talu i fynd a'r ceir drwodd yr ychydig bellter i'r pen dyma droi rownd a'u gadael ryw 200 llath i lawr y lôn. Pam talu i ryw ddiawl cyfoethog (Stad Barron Hill) oedd efo hen ddigon o bres yn barod, ynde?



Cyfle i ymweld â Ffynnon Seiriol, y Colomendy ayyb cyn cerdded lawr i'r pen. Bili dowcars, mulfrain gwyrdd yn y Swnt rhyngom ni ag Ynys Seiriol. Heidiau o 23 hutan y traeth a 3 rhostog cynffonddu yn hedfan heibio, dau drochydd gyddfgoch ymhell allan i gyfeiriad Llanfairfechan a throchydd mawr rhyngom â'r ynys.

Roedd 'na giang o fyfyrwyr o Goleg Bangor wedi cyrraedd. Pawb yn ei gôt goch lachar, wellingtons, bwcedi, polion mesur coch a gwyn, rhwydi llaw, llyfrau nodiadau ayyb. Y barfog busneslyd yn holi'r hogan ifanc oedd yn eu harwain be oedd y gwaith maes. Hithau'n ateb mai mesur haenyddiaeth ecolegol y traeth rhwng lefelau penllanw a phentrai oedden nhw a holi oedden ni wedi gweld rhywbeth cyffrous?

"Wel, mae'r olygfa 'na yn reit gyffrous" meddai'r barfog. Ryw 'chdig wedyn fe ddaeth y trochydd mawr i'r golwg a dyma alw arni i gael sbec. Roedd hi wedi gwirioni! "*I've never seen one of those in my life!*" meddai'n gynhyrfus. 'Doedd hynny ddim rhyfedd – a hithau ddim wedi bod ar y ddaear yn ryw hir iawn i gymharu ag un neu ddau o'n criw ni!




Gorffen, yn ôl ein harfer, mewn caffi ym Miwmares. Dyna pryd y dechreuodd hi fwrw. Roedden ni wedi bod yn lwcus iawn. Diolch Gwen am drefnu taith a thywydd perffaith.

**Twm Elias**

**Ôl Nodyn gan Kelvin Jones (BTO Cymru)**

Isod, y mae llun cyfansawdd o’r aderyn oedd yn gwisgo’r modrwyau er mwyn dangos y lliwiau ar ei ddwy goes - du uwchben melyn ar y goes chwith a gwyrdd uwchben gwyn ar ei goes dde. Beth oedd ei hanes? Yr oedd angen gwaith ditectif...



Rhoddais yr wybodaeth ar fwrdd negeseuon ar y Wê a ddefnyddir gan fodrwywyr ar draws Ewrop a chefais ateb sydyn.

Ymddengys i’r aderyn hwn gael ei fodrwyo gyntaf gan grŵp SCAN ar Draeth Lafan, ger Bangor ar 28$^{ain}$ Chwefror, 2009. Cafodd ei ddal drachefn yn ei ardal magu ger Nordhorn, Yr Almaen ar 16$^{eg}$ Mai, 2010, a’r adeg honno, fe osodwyd y modrwyau lliw ar ei goesau. Bu’n dychwelyd yn rheolaidd i’r ardal magu yn y



blynyddoedd ers hynny. Tybed ble y bu’r aderyn hwn yn gaeafu ers 2010, ar Ynys Môn ynteu yn rhywle arall?

Nid yw’r defnydd o fodrwyau lliw yn rhywbeth newydd nac yn defnyddio technoleg fodern ond mae yn ddibynadwy ac yn parhau i ddarparu data sy’n hynod werthfawr. Felly daliwch ati i syllu ar y coesau a rhowch wybod am unrhyw fodrwyau lliw a welwch. Wyddoch chi ddim, efallai mai dyna fydd yr union ddarn o’r jig-sô sydd ei angen.

## COCKY Y COCATŴ

**LLYNCODD YR ANGOR — OND *cadwodd ‘Cocky’***



’ROEDD o’n siaradus iawn pan es i’w weld, er ei fod yn glos wrth ochr y tan—heb fod yn hanner da ar hyd y gaeaf ’ma. Ym Mhorthmadog mae o’n byw’n awr, ond un o Awstralia ydyw’n wreiddiol—a ’does neb yn gwybod beth yw ei oed, a fedr o ddim dweud ei hun chwaith er mor siaradus ydyw. Wedi dweud cymaint a hyn, ni fuasai raid imi ddweud wrth bobl Porthmadog am bwy ’rwy’n son. oherwydd mae pawb yn y Port yn adnabod Cocky, y cockatoo siaradus o Chapel Street.

Yr unig sicrwydd ynglyn ag oed Cock yw ei fod dros 58 mlwydd oed, oherwydd yn 1898 y deuwyd ag ef drosodd o Awstralia i Gymru. Deryn Mr. Richard Williams a Miss Mary Williams, 11 Chapel Street, Porthmadog, yw Cocky, ac oni welsoch chwi’r deryn hynod hwn, wel, ewch i’w weld rhag blaen.

Bu cannoedd —miloedd, yn wir, yn gweld a chlywed Cocky er 1898, ac y mae yntau’n dal mor glen ag erioed. Pan oedd o’n byw yn is i lawr yn Chapel Street, ’roedd yn clywed y plant yn pasio am yr ysgol ac yn codi pob math o ymadroddion oddi ar y plant. Anodd yw i’r rhai a oedd ymysg y plant hynny tua 1900 gredu bod Cocky yn dal yn fyw hanner canrif yn ddiweddarach.

Y mae perchennog Cocky,—Richard Williams, yn wr diddorol iawn, hefyd. Mae’n anodd credu bod Cocky dros 58 oed, ac mae’n anodd coelio fod ei berchennog yn 82 oed, ond fe’i ganed drannoeth y Nadolig yn y flwyddyn y ganed Caruso a Chaliapin.

Chwith i Richard Willliams yw mynd at harbwr Porthmadog y blynyddoedd hyn, a gweld dim ond ambell i long nionod o Lydaw yn dod i’r cei a fu mor brysur yn nyddiau ei ieuenctid. Wedi gadael ysgol aeth Richard Williams yn brentis saer llongau at Eben Roberts ac yn ddiweddarach at David Jones. Byddai pum neu chwe phrentis gan Eben Roberts bob amser.

Pan oedd yn 24 oed, troes Mr Williams ei wyneb tua’r mor a hwyliodd ar ei fordaith gyntaf fel saer coed ar y llong hwyliau “Anglo Norman.” I Awstralia

Yn Y Cymro yn **1956**, cyhoeddwyd yr erthygl hon am ‘Cocky’ y cocatŵ o Borthmadog; tybed faint ohonoch sy’n cofio Cocky?

Perchennog y cocatŵ oedd Richard Williams, Stryd y Capel. Yn syth o’r ysgol, fe aeth Mr Williams i weithio fel prentis saer llongau ym Mhorthmadog ond pan yn 24 oed fe benderfynodd yr hoffai weld y byd ac fe aeth fel saer llong ar y llong hwylio yr ‘Anglo Norman’ dan y Capten John Williams. Pan laniodd y llong yn Newcastle, Awstralia yn 1898 fe brynodd Mr Williams y cocatŵ; yr oedd yr hynod Cocky yn **58 oed** pan gyhoeddwyd yr erthygl felly!

Ar ei ail fordaith, mewn storm enbyd tra’n pasio Penrhyn Gobaith Da fe daflwyd Mr Williams oddi ar y llong i ganol y môr – ond yn rhyfeddol, taflodd ton arall ef yn ôl ar fwrdd y llong! Yr oedd hynny yn ddigon iddo! Aeth o ddim yn ôl i’r môr wedyn – yng ngeiriau y llongwyr “*Fe lyncodd yr angor*”. Ar y lan y bu Mr Williams wedyn, yn trwsio llongau yn Lerpwl, cyn iddo ddychwelyd i Borthmadog yn 1934.

Dros y blynyddoedd fe ddaeth Cocky yn dipyn o ffefryn y Port, gan ennill gwobrau mewn llawer o sioeau’r ardal. Yr oedd plant y dref hefyd yn hoff iawn ohono ac fe ddysgodd Cocky lawer i ymadrodd oddi arnynt wrth eu clywed yn pasio’r tŷ ar eu ffordd i’r ysgol.

**Gareth Jones**

# ‘UN WENNOL…’

I’r rhan fwyaf o bobl, nad ydynt o reidrwydd yn cymryd fawr o sylw o fyd natur o’u cwmpas fel rheol, mae gweld gwennol gynta’r tymor yn sicr yn arwydd fod y gwanwyn wedi dod. Fel dyfodiant y cennin pedr, a’r ŵyn bach yn y caeau, dyma un o’r nodweddion amlycaf fod dyddiau gwell i ddod.

Gwennol y glennydd (Riparia riparia) fydd y cyntaf o’r ‘gwenoliaid’ i’n cyrraedd; gellir gweld y wennol fechan frown yn gwibio uwchben dyfroedd chwim a llonydd fel ei gilydd, gan nythu mewn glannau afonydd neu glogwyni meddal pan ddaw’r amser. Daw’r wennol (Hirundo rustica) a gwennol y bondo adnabyddus (Delichon urbicum) ychydig yn hwyrach, tra’r olaf ohonynt fydd y wennol ddu (Apus apus), a ddaw i sgrechain uwchben ein pentrefi ar hwyrddydd o haf yn hela pob math o bryfetach ar yr adain. Hi fydd y gyntaf i adael, gan ddiflannu fel arfer ddechrau Awst.

Ond llai o bobl fydd yn cofnodi dyfodiad adar mudol eraill fel y siff-saff (Phylloscopus collybita) cyntaf, neu’r telor yr helyg (Phylloscopus trochilus) cyntaf. Yn sicr, nid ydynt mor amlwg o ran eu gweld (ac wedi’r cyfan, i lawer nid yw adar bychain brownwyrdd yn llechu ym mrigau’r coedydd yn rhywbeth i gyffroi ryw lawer yn eu cylch o ran eu hedrychiad efallai). Ond mae eu cân yn werth ei nodi, ac yn llonni’r galon fel mae’r dyddiau yn ymestyn. Yn enwedig ar yr ucheldiroedd a’r ffriddoedd, o ganol Mawrth dylid cadw llygad allan am fflach o wyn o ben ôl tinwen y garn (Oenanthe oenenthe) hefyd – aderyn bach hynod o smart, yn enwedig y gwryw a’i streipen lygad ddu a’i gefn llwyd, yn sboncian o garreg i garreg, neu’n sefyll ar bolyn ffens. Dyma yn wir arwyddion fod y gwanwyn wedi dod, oherwydd bydd y rhain, fel y wennol, wedi croesi’r moroedd er mwyn cyrraedd Cymru fach ar addewid fod yr hinsawdd yn ffafriol ac y bydd digon o fwyd ar gael iddynt allu magu llond nythaid o gywion iach.

Mae’r broses o fudo yn rhyfeddol wrth gwrs, ac mor gyfrin fel nad oes cytundeb lawn eto beth yn union sy’n gyrru’r reddf, a sut bydd adar bychain yn canfod eu ffordd dros gyfandiroedd i gyrraedd bro eu mebyd, a hynny heb help ‘sat nav’ na’r AA route planner!

Yn wir, mae’n fwy tebygol eu bod yn defnyddio’r haul, a’r sêr fel ein cyndadau ninnau (sy’n esbonio pam fod cymaint o adar y hedfan ar nosweithiau clir yn hytrach na chymylog) ynghyd â grymoedd magnetig y ddaear i’w harwain o’r de i’r gogledd ac yn ôl (neu fel arall, gan ddibynnu beth yw’r rhywogaeth a lle bydd yn magu a gaeafu).

Un llyfr ardderchog a gyhoeddwyd yn ystod blynyddoedd diweddar yw’r atlas o adar sy’n mudo (The Migration Atlas – Movements of the birds of Britain and Ireland; Wernham et al 2002). Pen llanw blynyddoedd maith o waith ymchwil gan adarwyr fu’n dilyn adar wedi eu modrwyo o un lle i’r llall, gwaith sydd wedi dysgu

cymaint i ni am ble yr a rhai o'r adar y byddwn yn eu gweld yma yn ystod misoedd y gwanwyn a'r haf.

Mae rhai o'r teithiau yn syfrdanol – dychmygwch forwennol y gogledd (Sterna paradisea) er enghraifft, yn nythu yn yr arctig (a rhai cyn belled i'r de ag Ynys Môn) ac yna'n hedfan i'r Antarctig – cyn dychwelyd eto! Yn dilyn gwaith ymchwil, dilynwyd adar o'r Ynys Las a Gwlad yr Ia i Fôr Weddell ac yn ôl – pellter o 70,900km. Yn wir, a hwythau yn gallu byw hyd at 30 oed, gall un aderyn hedfan hyd at 2.4 milliwn cilometr yn ei fywyd – cymaint a thair taith i'r lleuad ac yn ôl!

A beth am yr aderyn hynod arall hwnnw (ac un o fy hoff adar i petai hynny o bwys), aderyn drycin Manaw (Puffinus puffinus). Mae Cymru yn un o'i gadarn-leoedd, a miloedd o barau yn nythu ar ynysoedd megis Ynys Enlli neu Ynys Sgogwm yn Sir Benfro. (Ynysoedd wrth gwrs, ble nad oes llygod mawr a mamaliaid eraill all fwyta ei wyau neu ei gywion, gaiff eu gadael mewn tyllau yn y ddaear tra bydd yr oedolion allan yn pysgota ar y môr mawr). Torrodd un o'r rhain bob record hirhoedledd wrth iddo ddychwelyd i Ynys Enlli yn 51 oed (modrwywyd ef gyntaf ym 1957, cyn cael ei ddal eto, ar hap yn 2008).



I'r rhai ohonoch sydd wedi bod yn ddigon ffodus i ymweld â'r Wladfa gwyddoch faint o hedfaniad 'long-haul' yw'r daith mewn awyren i ddeheubarth yr Ariannin – dychmygwch yr aderyn hwn felly, fawr mwy nag aderyn du o ran maint (ond ag iddo adenydd hirfain er mwyn manteisio ar bob chwa o wynt), wedi gwneud y daith dros ganwaith yn ei fywyd – a hynny heb allu gwylio ffilm na chysgu i basio'r oriau maith! Oblegid bydd rhai adar drycin Manaw yn hedfan yr holl ffordd i lawr i arfordir de America (Uruguay, Brasil a'r Ariannin) yn ystod ein gaeaf ni, cyn dychwelyd i Gymru i fagu drachefn. (Na, nid dilynwyr Michael D Jones yn y Mimosa oedd y cyntaf o Gymru i gyrraedd Patagonia!) Dros ei hanner canrif, byddai hwn wedi curo'r forwennol, gan gronni pellter cyhyd a deng gwaith i'r lleuad ac yn ôl! (5 miliwn o filltiroedd yn ôl Birds Britannica; Cocker a Mabey, 2005)

Felly, os clywsoch gan syml y siff-saff, dyna, fel arfer yw'r arwydd cynharaf fod y gwanwyn wedi cyrraedd. 'Un wennol, ni wna wanwyn' ebe nhw – ond gallwch fodd yn weddol siwr fod y gwanwyn wedi dod os yw'r adar mudol eraill wedi cyrraedd hefyd!

**Rhodri Dafydd**

(llun: Wicipedia)

# ADAR Y BALA? – NA, BALI



*Traeth o dywod cwrel ar ynys Gili Trewangan – y tonnau'n torri ar y rîff yn y pellter*

Doeddwn i erioed wedi meddwl y byddwn yn mynd i ynys bell Bali ar wyliau, byddai'r Bala'n llawer mwy tebygol. Ond, am fod Gwenllian y ferch 'cw a'i phardner Huw ar daith rownd y byd ac i Gwenllian gynnig, wrth drafod penblwydd ei mam oedd ymhen ryw bythefnos: "pam na ddowch chi atom ni i Bali i ddathlu?" Wel pam lai ynde? A dyna fu.

Hedfan o Fanceinion i Munich ar y 18fed o Dachwedd 2015 ac ymlaen i Signapôr. Aros yn y ddinas fawr hardd, gyfoethog a phrysur honno am ryw chwe awr a mynd ar daith dywys mewn bws i weld rhyfeddodau'r lle, a'r cyfan am ddim, drwy garedigrwydd awdurdod y maes awyr. Wrth grwydro'r strydoedd sylwi bod eu hadar to nhw yn wahanol – golfan y mynydd oedden nhw efo'u cap brown yn lle llwyd, deryn sy'n eitha' prin yng Nghymru erbyn hyn. Roedd adar maina yn eitha cyffredin o gwmpas yr adeiladau ac ambell geiliog yn canu'n hyfryd. Y maina tywyll *(Acridotheres fuscus)* oedd y rhain, sy'n debyg iawn i'n deryn du pigfelen ni ond efo coesau hirach, crib fel 'pync rocar' ar ei dalcen ac, fel y pync, yn dipyn mwy powld.



*Maina (pync) tywyll*

Ymlaen wedyn i faes awyr Denpasar, Bali. Roedd Gwenllian a Huw wedi cyrraedd

ddeuddydd ynghynt ac wedi cael gafael ar wely a brecwast inni i gyd lawr ryw stryd gefn yn nhref Pandewa ryw ’chydig filltiroedd i ffwrdd. Lle heb y trimings fel ’tae ond yn lle gwych, glân a chyfforddus efo pwll nofio yn y cefn ac allor Hindŵaidd yn y gornel lle gosodid offrwm o fwyd i gadw’r mwncwns ddeuai heibio bob hyn a hyn yn hapus. Sylwi bod platiau bychain o ddail wedi’u plethu ac offrwm i’r mwncwns yn gyffredin ar balmentydd y strydoedd hefyd.

Roeddwn yn falch o gael llun o’r bwlbwl tinfelyn *(Pycnonotus goiavier)* ddaeth i ganu ar y ffens. Mae’r bwlbwliaid yn deulu mawr – mae dros 20 math ym Malaysia ac Indonesia – ac roedd hwn yn un o haid swnllyd oedd yn crwydro’r gerddi. Mae sawl math o durtur/clomen yma hefyd – mae tua 20 math yn Bali yn unig, ond dim ond tair math welais i yma: turtur dorchog Jafa *(Streptopelia bitorquata)*, sy’n debyg iawn i’n turtur dorchog fach ni; y durtur warfrech *(S. chinensis)* a’r gôg-durtur fach *(Macropygia ruficeps)*.




*Bwlbwl tinfelyn, ond hwn yn cuddio’i ben ôl*

Am dro i draeth Padang-padang yn y p’nawn a dringo i lawr drwy hafn gul rhwng y creigiau folcanig i’w gyrraedd. Roedd hi’n ofnadwy o boeth yno – doeddwn i a Delyth ddim wedi cynefino eto, newydd adael ein Cymru fach aeafol. Dim adar, heblaw’r adar to capiau brown yn y coed o gwmpas y stondinau ar y traeth. Dim gwylanod na môr-wenoliaid… ond, be ’di’r smotyn acw ymhell allan. Binocs arno fo – deryn mawr tywyll efo cynffon fforchog hir. Deryn



*Y durtur warfrech, un fach glws iawn*

ffrigad, ond yn rhy bell i fedru d'eud pa un o'r tri welir yn Bali oedd o.


*Y lleidr dŵr yn disychedu*

Gweld symudiad dan y coed. Roedden nhw wedi cyrraedd – criw o fwncwns macac. Dyma nhw'n syth at graig tu cefn i'r stondinau i wledda ar y tameidiau ffrwythau oedd wedi eu gadael iddyn nhw yn y basgedi offrwm bach ac i fusnesu o gwmpas y stondinau. Un yn bachu potel ddŵr rhyw ddynes ac yn mynd â hi i fyny coeden, dad-sgriwio'r cap yn gelfydd ac yn yfed rêl boi ohoni.

Ddiwedd y p'nawn dyma ymweld â theml y mwncïod yn Uluwatu sy'n drwyn o graig uchel yn sticio allan i'r môr â chlogwyni anferth. Gorfod gwisgo clogyn porffor am ein canol i guddio'n coesau o ran parch i'r deml a'r mwncwns a chael ein rhybuddio i ddal gafael yn dyn yn ein hetiau, sbectols a chameras am fod y mwncwns yn dueddol o neidio ar eich cefn a'u dwyn nhw. Os ydych yn lwcus fe'u cewch yn ôl, ond ddim ond os rowch chi ffrwyth yn eu lle. Y diawliaid bach.

Ddiwedd y p'nawn roedd drama liwgar yn cael ei chyflwyno mewn amffitheatr fawr gerllaw'r deml. Hon oedd y Kekak, neu ddawns y tân sy'n stori allan o'r Ramayana, un o'r chwedlau mawr Hindŵaidd, am y ddau gariad Rama a Sita ac ymgais yr ellyll Rahwana i gipio'r ferch hardd, Sita. Fe lwyddodd yr ellyll i wneud hynny ac mae'r stori yn dilyn hynt Rama i'w hachub ac, yn y diwedd, yn llwyddo drwy gael help brenin a byddin y mwncïod. Dyna pam mae'r mwncïod yn sanctaidd i'r Hindŵiaid hyd heddiw a bod temlau iddynt ac aberth o fwyd ar eu cyfer ymhobman. Mae rhoi bwyd iddynt yn syniad da beth bynnag am eu bod yn greaduriaid cyfrwys, lladronllyd ac eitha' ymosodol ar adegau, ond yn bihafio'n reit dda os cânt eu gwala.

Gadael Pandewa a symud i ganol yr ynys i westy posh yn nhref Ubud. Ar y ffordd yno, galw mewn planhigfa goffi oedd yn arbenigo yn y coffi luwak drud. I baratoi hwn mae nhw'n bwydo'r luwak, sy'n fath o bergath y palmwydd neu *palm civet (Paradoxurus hermaphroditus)*, efo ffa coffi aeddfed. Mae'r


*Sita, cyn cael ei chipio gan yr ellyll*


*Hebog ehedydd y Dwyrain*

luwak yn eu b'yta ac mae'r hadau yn dod allan yn ei faw o. Yna golchi'r hadau'n lân, eu sychu a'u malu a'u gwerthu fel coffi sy', am iddo fod wedi bod ar daith drwy berfedd y luwak, â blas arbennig iddo. Roedd rhaid ei drio yndoedd? Mi oedd o 'chydig yn wahanol a neisiach na'r mathau eraill o goffi y cawsom eu samplo, ond ddim byd mawr chwaith. Braf oedd gweld y crëyr gwartheg cyfarwydd yma – efo gwartheg, yn naturiol.

Roedd y gwesty yn hyfryd, efo digon o goed mawr o gwmpas ac ar gyrion parc a theml arall i'r mwncwns. Roeddwn yn hapus iawn i weld hebog ehedydd y dwyrain *(Falco severus)* ar gangen un o'r coed. Yn y p'nawn mynd am dro a dringo drwy rai o'r terasau reis sydd fel grisiau hyd rai o'r llethrau. Dim llawer o adar, heblaw creyr melynbig *(Egretta intermedia)* ac, o bob dim: crëyr glas – yr un math a sy' gennym ni adra! Yn sydyn, wrth ddilyn ymyl un o'r terasau a minnau ar y blaen, dyma 'na neidr hir (tua 8' o hyd) lwyd yn gwibio ar draws y llwybr ac yn sgrialu lawr y llethr i rywle. O edrych ar y we yn ddiweddarach, gweld mai neidr lygod oedd hi. Ffrind i'r ffarmwr ac yn eitha' diniwed i bobl.

Y diwrnod wedyn mi ddaeth criw o fwncwns i mewn dros y balconi, ond buan y daeth staff y gwesty a'u hel nhw allan efo brwsh llawr. Wedyn crwydro'r dre a rhyfeddu at bensaernïaeth a cherfiadau carreg anhygoel o hardd rai o'r temlau a chadw o ffordd y traffig hollol wallgo' oedd yn gwibio hyd y strydoedd culion. Mewn llwyn bambŵ tu allan i un o'r tai bwyta (bwyd Indonesia yn anhygoel gyda llaw) roedd 'na dderyn haul cefn melynwyrdd *(Nectarinia jugularis)*. Iâr oedd hi, felly bol melyn a chefn melynwyrdd tywyll. Mae gan y ceiliog frest las hardd, ond welais i mohono fo.

Mi es i a Huw i Sŵ yn y p'nawn i weld un o'r dreigiau Komodo mawr enwog. Ond dim golwg ohoni. Siom. Gofyn lle'r oedd hi, yr ateb gawson ni oedd: *"It's dead"*.

Dydd Sul yr 22ain, codi'n gynnar i deithio i harbwr Padang ar gyfer trip i ynys Lombok, wel, i ynys fechan Gili Trewangan oddi ar ei harfordir mewn gwirionedd. Roeddwn yn edrych ymlaen yn arw at y daith hon am y byddwn yn croesi ffin eco-ddaearyddol eithriadol o bwysig a byd-enwog. Rhwng Bali a Lombock y gorwedda yr hyn a elwir yn Linell Wallace, sy'n nodi'r ffin rhwng platiau tectonig Asia ac Awstralia/Gini Newydd. Ar blât Asia, cyn belled a Bali, fe gewch anifeiliaid megis mwncwns a theigrod ayyb a mathau Asiaidd o nadroedd a phlanhigion. Croeswch

i Lombock ac fe gewch farsiwpials, poswms a nifer gynyddol o greaduriaid a phlanhigion Awstralaidd.

Cafodd hyn effaith mawr ar ecoleg y ddwy ardal. Er enghraifft y prif reswm pam fod cymaint o gyfoeth o adar, megis yr adar paradwys, i'r dwyrain o Linell Wallace yw nad oes mwncwns yno. Mae mwncwns yn arbenigwyr ar ddwyn wyau a chywion adar.





Y Cymro a'r bio-ddaearyddwr, Alfred Russell Wallace, sylwodd ar hyn gynta'. Sylwodd hefyd bod creaduriaid y naill ochr i'r llinell, er yn wahanol iawn i'w gilydd, wedi datblygu i gyflawni'r un rôl ecolegol a bod cymaint o fân amrywiaethau wedi codi rhwng poblogaethau o'r un rhywogaeth ar wahanol ynysoedd. Rhoddodd hyn iddo ei weledigaeth fawr am esblygiad. Gyrrodd ei ganlyniadau i Darwin, oedd wedi cael yr un weledigaeth ar y Galapagos, ac mi gafodd hwnnw fraw wrth weld bod rhywun arall wedi dŵad i'r un canlyniad a fo cyn iddo gyhoeddi dim.

Cyhoeddwyd y theori fawr am 'esblygiad drwy ddidol naturiol' mewn papur ar y cyd rhwng Darwin a Wallace gerbron y Gymdeithas Lineaidd yn 1858. Yna aeth Darwin ymlaen i gyhoeddi ei *Origin of Species* yn 1859 a'r gyfrol honno gafodd y sylw i gyd. Cafodd Wallace gam braidd o hyn ymlaen ac ni roddwyd cydnabyddiaeth deilwng iddo gan Darwin na'r 'sefydliad' academaidd Prydeinig. Un rheswm am hyn oedd nad oedd Wallace o'r cefndir iawn, ddim o dras 'bonheddig', a gwaeth fyth yn sosialydd!

Roedd Gili Trewangan yn hyfryd, ynys hirgron, ryw dair milltir o hyd, yr ochr ddwyreiniol yn dwristaidd a'r gweddill yn ddistaw braf. 'Doedd yr un car modur ar yr ynys – car a cheffyl neu feic oedd pob dim. Braf oedd cael tacsi ceffyl i gario'n bagiau, a'i radio bach yn dweud wrth y gyrrwr am ei gwsmer nesa, jyst fel tacsi adra. Aros mewn fila braf a phob dim o fewn cyrraedd ar droed.



*Y tacsi di-betrol*

Mynd am dro ar y traeth a dŵad ar draws nid llai na tri deryn cyfarwydd – glyfinir, cwtiad llwyd a phibydd y dorlan (neu Wil dŵr). Y tri wedi dŵad i aeafu o Siberia mae'n debyg – syniad da ynde? 'O na bawn i fel aderyn.'

Roedd 'na dderyn bwlbwl gwahanol i'r un tinfelyn yn Pandewa yma. Haid fechan swnllyd o fwlbwliaid clustwyn *(Pycnonotus aurigaster)* ac yn eitha' swil am eu bod yn cael eu herlid am



*Wil dŵr ydi ei enw yn Stiniog*



*Bwlbwl clustwyn – hwn oedd y gwyliwr*

ddwyn o'r gerddi. Roedd un neu ddau yn gwylio tra byddai'r gweddill yn gwledda ac yn sgrechian rhybudd: "sgrrrrialwch!"pan ddown yn agos. Ond mi ge's i luniau yn y diwedd, drwy dwll mewn ffens.

Yma y cawsom ni'r parti penblwydd yr oeddem wedi teithio mor bell iddo ac anrheg penblwydd oedd mynd i weld y feithrinfa grwbanod ger y traeth. Oherwydd pwysau twristiaeth ar ochr ddwyreiniol yr ynys roedd peryg y byddai hynny'n amharu ar y crwbanod gwalchbig oedd yn magu yma. Y drefn felly yw codi'r wyau o'r tywod a'u cadw'n saff tan y byddent yn deor. Wedyn rhoi'r cywion bach mewn tanciau o ddŵr môr a'u cadw nes y byddent wedi dyblu neu dreblu yn eu maint cyn eu gollwng i'r môr. Ac am eu bod yn fwy o faint yn mynd i'r môr mae eu siawns o oroesi yn well yn ôl y sôn.



*Ciw crwban yn ei danc yn aros am ei ryddid*

Mi aeth Huw a Gwenllian allan ymhell i snorclo a gweld naw crwban gwalchbig. Mi fentrais innau hefyd, ddim mor bell, ond rhoi'r gorau wnes i am fod y dŵr yn ymdreiddio drwy fy mwstash ac yn llenwi'r masg ymhen ryw ½ munud! Ia, 'mond shafiwrs sy'n snorclo. Ond o leia mi welais un crwban a lot o bysgod lliwgar.



*Pibydd cynffonlwyd - daw yma i aeafu o Siberia*

Y bore wedyn mynd am dro hyd y traeth ar yr ochr ddistaw o'r ynys. Paradwys o le. Cael lluniau o haid fechan o'r pibydd cynffonlwyd *(Tringa brevipes)*, un arall sy'n nythu yn Siberia; creyr cefnwyrdd *(Butorides striata)* ar damaid o gwrel wrth i'r môr wagio. Ydach chi'n cofio inni weld un o'r rhain ar daith Cymdeithas Ted ym Môn fis Tachwedd 2005 (*Llygad Barcud*, 6, 2005)? Yr is-rywogaeth Americanaidd oedd hwnnw.

Cael llun da o wennol y dwyrain *(Hirundo tahitica)*, sy'n debyg i'n wennol ni ond heb goler las fel yr un adra. Wrth ddŵad o'r traeth, be oedd 'na yn un o'r



*Crëyr cefnwyrdd ar damaid o gwrel*



*Cigydd cynffon hir yn mwynhau chwilen i ginio*




*Y manicin torwyn ar wal y gwesty*

llwyni ond deryn mawr smart yn b'yta chwilen: cigydd cynffon-hir Asia *(Lanius schach)* ddim llai.

Pacio ai hel hi nol ar y gwch i Bali oedd hi wedyn ac i westy ger maes awyr Denpasar erbyn gyda'r nos. Yn y bora cael ambell lun dros y balconi o adar bach o deulu'r breision yn y coed gerllaw. Roedd y manicin torwyn *(Lonchura leucogastra)*, manicin mannog *(L. punctulata)* a'r manicin Molwcaidd *(L. molucca)* yno, pethau bach del iawn.

Wel, roedd hi'n amser i ninnau hedfan y p'nawn hwnnw, Huw a Gwenllian i wres Awstralia a ninnau'n ôl i Walia lawog, yn llawn o atgofion melys.

**Twm Elias**



Yn ystod ein ymweliad â RSPB Ynys-hir fis Ebrill, fe fuom yn ddigon lwcus i weld, nid un, ond pâr o'r gwybedog brith.

Yr oedd y ceiliog (uchaf) a'r iâr (isaf) yma yn sefyll ar giât wrth ochr y llwybr.

O weld yr arwydd amlwg ar y giât, a oedd yr iâr yn dangos nad oedd ganddi fawr o ddiddordeb mewn cael hwn fel partner?

# RHAGLEN GORFFENNAF-RHAGFYR 2016

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Medi** (dyddiad i'w gadarnhau)
Taith yn ardal **Porth Meudwy** – manylion i ddilyn.
Cyfarfod ym maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Porth Meudwy.

**Hydref 15**
Y Gynhadledd Flynyddol – **Plas Tan y Bwlch.**

**Hydref 29**
Taith yn ardal **Pwllheli.**
Cyfarfod ym maes parcio Plas Heli (yr adeilad newydd yn yr harbwr).

**Tachwedd 8 neu 9** (i'w gadarnhau)
Sgwrs ym Mhlas Tan y Bwlch.

**Tachwedd 19**
Taith o gwmpas RSPB Conwy.
Cyfarfod ym maes parcio'r RSPB.

**Rhagfyr 3**
Taith yn ardal Moelfre.
Cyfarfod yn y maes parcio ger y traeth ym Moelfre.

**Rhagfyr 13**
Noson mins peis ym Mhlas Tan y Bwlch

**Rhagfyr 17**
Taith yn ardal Porthmadog dan arweiniad Twm Elias
Cyfarfod ger siop Recordiau'r Cob.

**Ionawr 7**
Taith yn ardal Y Foryd.
Cyfarfod yn y maes parcio, Dinas Dinlle.

**Teithiau yn cychwyn am 10.30yb. (oni nodir yn wahanol) a'r sgyrsiau am 7.30yh.**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**